## ATODLEN 8

Rheoliad 3(1)

### Cynhwysion ychwanegol awdurdodedig

**1.** Unrhyw fitamin neu fwyn a awdurdodwyd yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1925/2006.

**2.** Unrhyw ychwanegyn bwyd a awdurdodwyd yn unol â Rheoliad 1333/2008.

**3.** Unrhyw un neu fwy o'r suddoedd a ganlyn (a fynegir fel asid sitrig anhydrus) a ychwanegir er mwyn rheoleiddio blas asidig os na fydd cyfanswm y sudd o'r fath a ychwanegir yn fwy na 3 gram y litr o'r cynnyrch—

(a) sudd lemon;

(b) sudd leim;

(c) sudd lemon wedi ei ddwysáu;

(d) sudd leim wedi ei ddwysáu.